# Dosbarthu Anifeiliaid

Addasiad Anifeiliaid a Phlanhigion

## Bwriad Dysgu

- Trefnu creaduriaid yn ôl cysyniadau: gwedd, arferion bridio, deiet a chynefinoedd.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Gwyddoniaeth** Cyfathrebu'n glir drwy ddefnyddio'r eirfa wyddonol berthnasol.

**ADCDF** Yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

* Plant i ddarllen datganiadau a'u cysylltu â chreaduriaid.
* Plant i negodi/cyfnewid gwybodaeth rhwng grwpiau.
* Dosbarthu creaduriaid yn briodol.
* Plant i ddatblygu eu hallweddi eu hunain ar gyfer pob datganiad lliw.

## Adnoddau

Cerdyn creadur darluniedig

Setiau o ddatganiadau côd lliw ar gyfer pob creadur

Coch: atgenhedlu

Glas: gwedd

Gwyrdd: deiet

Du: cynefin/lleoliad

Taflen ddosbarthu - amffibiaid, molysgiaid, arachnid, trychfilod, adar a mamaliaid

Taflen trefnu gwybodaeth

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

# Dosbarthu Anifeiliaid

**Amlinelliad o'r Wers**

- Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o bedwar.
- Dangos darluniadau o bob creadur a rhoi un i bob grŵp.
- Esbonio bod pedwar datganiad côd lliw i gyd-fynd â phob llun.
- Rhannu'r holl ddatganiadau (wedi'u cymysgu) rhwng y plant. Rhaid i bob grŵp gael pedwar datganiad yn unig.
- Rhoddir un o'r datganiadau hyn i bob disgybl.
- Rhaid i'r grŵp geisio cysylltu'r cliwiau â'r creadur.
- Bydd angen iddynt gyfnewid/negodi â grwpiau eraill i gael y pedwar cliw i'w creadur nhw (gweithgaredd marchnadle).
- Ar ôl casglu'r pedwar cliw, mae’r plant yn defnyddio'r daflen ddosbarthu i ddosbarthu eu creadur.
- Ar ôl cwblhau, mae'r plant yn ailddarllen y cardiau datganiad ac yn penderfynu ar eu penawdau eu hunain ar gyfer pob datganiad lliw (taflen trefnu gwybodaeth).

**Molwsg**

Mae gan folysgiaid gyrff meddal ac maent yn byw mewn cragen.
Mae ganddynt un droed ar gyfer symud.
Mae'r rhan fwyaf o folysgiaid yn byw mewn dŵr.



Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym?

- [ ] Sut mae'n atgynhyrchu?
- [ ] Beth mae'n ei fwyta?
- [ ] Pa olwg sydd arno?
- [ ] Ble mae'n byw?

Rwy'n dodwy nythaid o hyd at 100 o wyau ac yn eu claddu tua 5-10cm o dan y pridd.

Mae gennyf groen llaith, felly rwy'n hoffi byw mewn amodau llaith.

Mae gennyf gragen galed a dau bâr o dentaclau.

Rwy'n bwydo ar lystyfiant sy'n pydru megis ffyngau a dail planhigion.

Cliwiau am y sioncyn y gwair

Rwy'n dodwy fy wyau yn y pridd ac maent yn aros yno drwy'r gaeaf.

Rwy'n hoffi'r glaswellt hir i eistedd arno a chanu fy nghân sy'n tincian.

Mae angen cynefin arnaf lle ceir llawer o laswellt hir oherwydd mai dyna yw fy mwyd.

Rwy'n cuddio'n dda yn y glaswellt gan fod fy nghorff yr un lliw. Rwy'n gallu hedfan, ond nid yn dda iawn. Efallai y byddwch yn fy ngweld yn neidio am fod gennyf goesau hir.

Cliwiau am y dryw

Rwy'n adeiladu sawl nyth o ddail, mwsogl a glaswellt mewn boncyffion coed, waliau wedi'u gorchuddio ag iorwg neu lwyni trwchus. Mae'r fenyw yn dewis pa nyth i'w defnyddio ac fel arfer yn dodwy 5-8 o wyau gwyn neu wyau sydd ychydig bach yn frith.

Mae angen cynefin arnaf sydd â llawer o goed a llwyni bach i mi gysgodi ynddynt.

Mae angen cynefin arnaf sydd â llawer o bryfed, corynnod a hadau bach i mi eu bwyta.

Rwy'n frown ac yn frith er mwyn i mi allu cuddio rhag adar ac anifeiliaid eraill a allai fy mwyta.

Cliwiau am yr ystlum

Rwyf fel arfer yn rhoi genedigaeth i un ystlum bach yng nghanol mis Mehefin. Rwy'n bwydo'r bychan â'm llaeth tan iddo fod tua thair wythnos oed.

Rwy'n hoffi clwydo mewn hen adeiladau neu dyllau mewn coed. Rwy'n chwilio am fwyd dros dir agored, mewn coetir neu dros byllau a llynnoedd.

Rwy'n bwydo wrth hedfan. Rwy'n bwyta amrywiaeth o bryfed gan gynnwys gwyfynod, adenydd siderog a gwybed. Rwy'n bwyta hyd at 3,000 y noson!

Mae blew brown dros bob rhan o'm corff. Mae gennyf fflapiau croen rhwng fy mysedd hir sy'n ffurfio adenydd.

Cliwiau am y fadfall ddŵr

Rwy'n dodwy fy wyau'n unigol ar ddail mewn dŵr. Mae'r rhain yn deor yn larfâu sy'n edrych fel penbyliaid sy'n tyfu'n oedolion mewn tua 10 wythnos.

Mae angen cynefin arnaf sydd â rhywle oer, llaith a chysgodol i mi guddio ynddo yn ystod y dydd. Mae angen pwll neu nant gerllaw i esgor fy wyau.

Rwy'n bwyta mwydod, gwlithod ac anifeiliaid bach eraill.

Mae gennyf gorff hir a thenau, pedair coes a chynffon. Mae fy nghroen yn dywyll a brith. Nid oes gennyf flew na phlu.

Fel llawer o'm math (y fenyw), rwy'n fwy na'r gwryw. Rwy'n dodwy tua 500 o wyau mewn cocŵn sidan ac yn marw'n fuan ar ôl hynny.

Rwy'n hoffi byw lle mae llawer o bryfed yn hedfan, fel arfer ar lwyni mewn parciau a gerddi.

Cliwiau am gorryn yr ardd

Rwy'n bwydo ar bryfed sy'n hedfan megis ieir bach yr haf, gwenyn meirch a chlêr.

Mae gennyf 8 coes. Mae fy lliw yn amrywio o felyn golau i lwyd tywyll, ond mae gennyf olion gwyn brithog bob amser.

Rwy'n dodwy nythaid o hyd at 100 o wyau yr wyf yn eu claddu tua 5-10cm o dan y pridd.

Mae gennyf groen llaith, felly rwy'n hoffi byw mewn amodau tamp.

Cliwiau am y falwoden

Rwy'n bwydo ar lystyfiant sy'n pydru megis ffyngau a dail planhigion.

Mae gennyf gragen galed a dau bâr o dentaclau.













**Molysgiaid**

Mae gan folysgiaid gyrff meddal ac maent yn byw mewn cragen.
Mae ganddynt un droed ar gyfer symud.
Mae'r rhan fwyaf o folysgiaid yn byw mewn dŵr.

**Mamaliaid**

Mae blew neu ffwr ar y rhan fwyaf o famaliaid.
Mae gan bob mamal waed cynnes.
Mae pob mamal yn rhoi genedigaeth i epil byw.
Mae mamaliaid yn cynhyrchu llaeth.

**Trychfilod**

Mae ganddyn nhw sgerbwd allanol.
Mae tri segment i'w cyrff.
Mae ganddynt chwe choes a llygaid cyfansawdd.

**Amffibaid**

Mae amffibiaid yn dodwy wyau mewn dŵr.
Creaduriaid gwaed oer yw amffibiaid.
Mae ganddynt bedair coes.
Maen nhw'n gallu anadlu trwy eu croen.

**Arachnidau**

Maen nhw'n anifeiliaid di-asgwrn-cefn.
Mae ganddynt gorff sydd wedi'i rannu'n ddau.
Mae ganddynt bedwar pâr o goesau.

**Adar**

Mae gwaed cynnes gan bob aderyn.
Mae plu gan bob aderyn.
Mae pob aderyn yn dodwy wyau.

Trefnu Gwybodaeth - Pa wybodaeth ydyn ni'n ei defnyddio i ddosbarthu rhywogaeth?
(1 copi i bob grŵp)

## Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym?

- [ ] ______________________________
- [ ] ______________________________
- [ ] ______________________________
- [ ] ______________________________


## Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym?


- [ ] ______________________________
- [ ] ______________________________
- [ ] ______________________________
- [ ] ______________________________